

Taflen Ffeithiau - Opsiynau Band Eang 4G

Beth yw Band Eang 4G

- Mae band eang 4G yn wasanaeth rhyngwrwyd sy'n defnyddio 4G yn hytrach na llinell ffôn neu ffibr.
- Y darparwyr band eang 4G yw: EE, Three UK, o2 a Vodafone.
- Ceir hefyd "Weithredwyr Rhwydwaith Rhithiol Symudol" sy'n gweithio dros y seilwaith rhwydwaith a ddarperir gan y 4 prif gwmni rhwydwaith symudol uchod.
- Mae'r costau fel arfer rhwng £22 a £60 y mis. (Gan gynnwys Data Diderfyn).

Sut mae'n gweithio?

- Bydd gan fastiau cwmnïau ffonau symudol gysylltiadau rhyngwrwyd â capasiti uchel naill ai o fast arall, neu drwy gysylltiad ffibr uniongyrchol.
- Mae'r signal 4G a drosglwyddir o'r mastiau hyn yn teithio i'ch tŷ (os nad oes unrhyw beth yn ei rwystro) gan ddod â chyflymder band eang cyflym.
- Fe'i derbynir naill ai gan lwybrydd (router) band eang dan do neu'n ddelfrydol, llwybrydd band eang symudol awyr agored.

Sut mae band eang 4G yn wahanol i fand eang cyffredin?

- Nid oes angen llinell ffôn arno i weithio.
- Mae'n gallu arafu ar adegau e.e. os bydd cyngerdd yn agos / safle cellol yn cael ei ddefnyddio'n helaeth.
- Gall cyflymderau lanlwytho fod yn uwch.
- Mae capiau data yn bodoli, ond mae tariffau diderfyn bellach ar gael yn eang.
- Mae offer sydd wedi'i osod yn allanol yn darparu gwasanaeth gwell.

Beth yw'r buddion?

- Gall weithio naill ai fel cysylltiad band eang cynradd neu eilaidd.
- Gall cyflymderau lanlwytho fod yn uwch, yn ddefnyddiol ar gyfer anfon data, galwadau fideo ac ati.
- Llai o gost - symud o linell ffôn draddodiadol i linell VoIP.

Mathau o dechnoleg mynediad 4G

- Roedd cwmnïau ffonau symudol yn darparu dyfeisiau fel Llwybrydd MiFi neu 4G (i'w defnyddio dan do).
- Mae rhai modelau yn cefnogi antenau allanol.
- Prynu offer wedi'i deilwra i gynnwys yr uchod gan ddarparwyr / gosodwyr lleol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer defnydd allanol. Gall y rhain hefyd gynnwys systemau antena a llwybrydd "cynhwysol" a allai helpu gwella perfformiad.

Creu'r Cysylltiad

- Efallai bod eich signal ffôn symudol yn ddigon da gyda llwybrydd MiFi / 4G gan gwmni rhwydwaith ffonau symudol safonol.
- Os oes gennych ddewis o rwydweithiau, efallai yr hoffech wneud prawf cyflymder gyda'r naill rwydwaith neu'r llall i bennu'r perfformiad gorau yn erbyn y pris.
- Efallai y bydd angen i chi ddewis rhwydwaith neu arbenigwr band eang 4G lleol.



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813

Cymorth Grant

Allwedd Band Eang Cymru - <https://llyw.cymru/cyflumu/rhowch-hwb-ich-band-eang>

Mae'r cynllun hwn yn darparu grantiau i ariannu (neu ariannu'n rhannol) costau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru. Nid yw'n cynnwys costau rhent misol.

Rhaid i gysylltiadau newydd trwy'r cynllun hwn sicrhau newid sylweddol mewn cyflymder - gydag o leiaf dwbl eich cyflymderau lawr lwytho cyfredol e.e. mae'n rhaid i gysylltiad cyfredol o 10Mbps wella i o leiaf 20Mbps.

Mae cyfanswm y cyllid y gallwch ei dderbyn yn dibynnu ar gyflymder y cysylltiad newydd:

£400 am 10Mbps ac uwch

£800 am 30Mbps ac uwch

Meini Prawf Cymhwyster ac Amodau'r Cynllun

<https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2020-03/access-broadband-cymru-eligibility-criteria-and-scheme-conditions.pdf>

Ffurflen Gais

https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2020-03/access-broadband-cymru-application-form_0.pdf

Enghreifftiau o Gyflenwyr / Gosodwyr Band Eang 4G

- IA Aerials
- 4G4U
- PC-Q
- AL Technical
- Astra Broadband
- Country Connect
- Countryside Connections
- Dyfed Telecom
- Freelix
- ITsDUN
- Haven Wireless (West Wales Systems)
- Pembs Wifi
- Total Tech Ltd
- CommuniKate

Gwefan a manylion e-bost Llywodraeth Cymru

www.gov.wales/broadband - broadband@gov.wales

Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol Ofcom (Mawrth 2020)

<https://www.ofcom.org.uk/phones-telecoms-and-internet/advice-for-consumers/broadband-usage-need-to-know>



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813